



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Goleg Beechwood
Heol Hayes
Sili
Bro Morgannwg
CF64 5SE**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2018

Cyd-destun

Mae Coleg Beechwood yn goleg arbenigol annibynnol ac yn gartref gofal, sydd wedi'i leoli yn Sili ym Mro Morganneg. Perchennog y coleg yw Beechwood Court Ltd, sy'n rhan o Ludlow Street Healthcare.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd a phreswyl i ddysgwyr sy'n 16 oed ac yn hŷn sydd ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth ac sydd efallai ag anghenion yn gysylltiedig â chyflwr y sbectrwm awtistig.

Mae'r pennaeth addysg yn arwain tîm o ddarlithwyr a chynorthwyrwyr cymorth dysgu ac mae ganddo gyfrifoldeb am ddarparu a chyflwyno pob rhaglen addysg. Mae tîm arweinyddiaeth strategol y coleg yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg a gofal, y pennaeth addysg, y dirprwy bennaeth addysg, rheolwr y cartref gofal a'r arweinydd clinigol.

Mae 63 o ddysgwyr ar gofrestr y coleg ar hyn o bryd, y mae 49 ohonynt yn ddynion ifanc ac 14 yn fenywod ifanc. Daw dysgwyr i'r coleg o ystod eang o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Ariennir lleiafrif o ddysgwyr trwy wasanaethau addysg.

Ymunodd cyfarwyddwr addysg a gofal newydd â'r coleg ym mis Gorffennaf 2017.

Cynhaliwyd yr arolygiad craidd diwethaf o'r coleg ym mis Ebrill 2014.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd buddiol yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae darlithwyr a staff cymorth yn gwybod anghenion dysgwyr yn dda ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda nhw.

Mae'r cyfarwyddwr addysg newydd wedi rhoi systemau a strwythurau effeithiol ar waith i gefnogi gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys system ar gyfer olrhain cynnydd dysgwyr, a strwythur priodol o arweinyddiaeth ddirprwyedig sydd â rolau a chyfrifoldebau clir.

Mae gan uwch arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'r coleg. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae ganddynt ffocws clir ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Meysydd i'w datblygu

Mae'r coleg wedi cyflwyno nifer o addasiadau gwerthfawr i'w gwricwlwm i gefnogi datblygu medrau annibyniaeth dysgwyr. Er enghraifft, mae wedi creu ardal medrau bywyd a chaffi, ac mae'n dechrau datblygu ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgwyr gael profiad gwaith. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cynlluniau darlithwyr yn darparu cyfleoedd digonol i ddysgwyr ymarfer a datblygu'r medrau a nodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae presenoldeb wedi gostwng ac mae'n rhy isel ar hyn o bryd. Nid yw rhai dysgwyr yn cyrraedd yn brydlon nac yn barod i ddysgu.

Argymhellion

A1 Sicrhau bod profiadau dysgu yn galluogi dysgwyr i ymarfer a datblygu'r medrau a nodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol

A2 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Sicrhau bod targedau ar gynlluniau dysgu unigol yn mynd i'r afael ag ystod lawn y medrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r coleg wedi adolygu cynlluniau dysgu unigol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag ystod eang o fedrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys targedau i ddatblygu annibyniaeth, iechyd a lles galwedigaethol dysgwyr, yn ogystal â'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae targedau tymor byr a thymor canolig pwrpasol yn cysylltu'n dda â nodau cyrchfannau a lleoli tymor hir dysgwyr. Caiff y nodau hyn eu llywio'n briodol gan dîm amlddisgyblaethol y coleg, ac maent yn cysylltu'n dda â chynlluniau addysg a gofal iechyd neu gynlluniau cymorth dysgu dysgwyr.

Mae'r coleg yn adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau yn rheolaidd. Caiff dysgwyr gyfleoedd priodol i gyfrannu at eu targedau ac adolygu'r cynnydd a wnânt.

Argymhelliad 2: Defnyddio'r wybodaeth a geir o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith yn dda i helpu staff i wella eu haddysgu. Gwnânt ddefnydd adeiladol o gofnod adborth ar arsylwadau sy'n cynnwys y camau sydd eu hangen i wella arfer. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o ffocws mewn arsylwadau ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

Mae system effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad ar waith erbyn hyn. O ganlyniad, mae gan ddarlithwyr dargedau priodol i wella ansawdd yr addysgu y maent yn gweithio tuag atynt yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae system arsylwi cymheiriaid yn datblygu'n dda ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar arfer. Er enghraifft, mae darlithwyr yn dechrau rhoi cynnig ar ddulliau newydd, yn gofyn am gymorth, ac yn cynorthwyo cydweithwyr â defnyddio TGCh.

Argymhelliad 3: Sicrhau bod cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd dysgwyr

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cyfres o gyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd dysgwyr. Mae'r wybodaeth o'r cyfarfodydd hyn yn helpu llywio olrhain cynnydd dysgwyr a nodi targedau priodol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae cyfarfodydd addysg wythnosol yn cynnwys ffocws allweddol ar addysgu a dysgu ac mae

cyfarfodydd wythnosol y grŵp craidd amlddisgyblaethol yn canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr sydd â lefelau angen uchel. Mae cyfarfodydd ymateb wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff arfarnu rheoli ymddygiad heriol.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am y coleg

Coleg	Coleg Beechwood
Rhif y coleg	F0006003
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	14/03/2018
Perchennog	Beechwood Court, Ludlow Street Healthcare
Staff	1 dirprwy bennaeth addysg, 12.1 o ddarlithwyr cyfwerth ag amser llawn (3 darlithydd rhan-amser), 12.6 o gynorthwywyr cymorth dysgu cyfwerth ag amser llawn (1 rhan-amser), 69 o weithwyr cymorth (preswyl)
Nifer y dysgwyr	63
Darpariaeth	Dysgwyr dydd a dysgwyr preswyl wythnosol (dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor), 38 wythnos yn ystod y tymor, 38 wythnos yn ogystal â seibiant, 52 wythnos
Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer	Myfyrwyr sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ac a allai fod ag anghenion yn gysylltiedig â chyflwr y sectrwm awtistig
Arolygiad llawn diwethaf	07/04/2014
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	03/10/2016
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	06/11/2017